LANCS1

# Cynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill yn y gweithle

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chymryd gofal o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun yn y gwaith ac iechyd a diogelwch pobl eraill a allai fod wedi eu heffeithio gan yr hyn yr ydych yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o beryglon yn yr ardal waith, gwisgo dillad priodol (yn cynnwys dillad a chyfarpar diogelu pan fo angen), dilyn hyfforddiant a chyfarwyddiadau am y ffordd o wneud pethau yn ddiogel a bod yn ymwybodol o ganlyniadau eich gweithredoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwneud eich gwaith yn unol â'r hyfforddiant â'r cyfarwyddiadau yr ydych wedi eu cael fel nad oes risg i'ch iechyd a'ch diogelwch chi ac iechyd a diogelwch pobl eraill
2. Adnabod peryglon yn yr ardal waith ac adrodd amdanynt wrth berson priodol
3. Gwisgo dillad addas ar gyfer y gwaith yr ydych yn ei wneud
4. Gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) lle mae wedi cael ei asesu fel gofyniad ar gyfer y gwaith yr ydych yn ei wneud
5. Defnyddio y dulliau diogel o godi a thrafod wrth symud eitemau
6. Defnyddio a storio cyfarpar a deunyddiau yn ddiogel ac yn gywir
7. Cadw'r ardal waith yn daclus bob amser
8. Gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
9. Cyflawni eich gwaith mewn ffordd sydd yn lleihau niwed amgylcheddol
10. Adrodd am unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu broblemau heb oedi wrth berson priodol a chymryd camau angenrheidiol ar unwaith i leihau perygl pellach.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
Y mathau o beryglon a allai fod yn bresennol yn eich ardal waith
2.
Y risg i iechyd a diogelwch â'r mesurau sydd wedi eu sefydlu i reoli'r risgiau hynny
3. Eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a chodau ymarfer perthnasol
4. Pa gyfarpar diogelu personol (PPE) a dillad y dylid eu gwisgo a sut dylid gofalu am hyn
5. Technegau codi a thrafod diogel
6. Y ffordd gywir a diogel o ddefnyddio a storio cyfarpar a deunyddiau sydd yn ofynnol ar gyfer eich gwaith
7. Pwysigrwydd cymhennu da yn y gweithle
8. Dulliau cywir o waredu gwastraff
9. Dulliau o leihau niwed amgylcheddol yn ystod eich gwaith
10. Pam y dylid adrodd am ddamweiniau, digwyddiadau a phroblemau â'r camau priodol i'w cymryd
11. Gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer mathau gwahanol o argyfyngau sydd yn berthnasol i'r diwydiant yr ydych yn gweithio ynddo e.e. tân, damwain.

LANCS1

Cynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill yn y gweithle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2011 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2016 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCU133 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Cynorthwy- Ceffylau, Garddwr, Gweithiwr Planhigfa, Gweithiwr Cynhyrchu Ffrwythau a Llysiau, Gweithiwr Canolfan Arddio, Gweithiwr Fferm, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Cynhyrchu Anifeiliaid Fferm, Ceffylaidd, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | Iechyd; diogelwch; perygl; risg |